# COFFADWRIAETH

## O farwolaeth

# *ROBERT ROBERTS,*

### O SIR GAERNARFON,

A ymadawodd a'r byd hwn Tachwedd 28n 1802, yn 40n mlwydd oed.

---

*Canys byw i mi yw Crist, a marw sydd elw,*
Phil. i, 21.

---

Yn ail ychydig bennillion am y Parchedig

# *D. JONES,*

### PERSON LLAN-GAN,

*Yr hwn a hunodd gyd a'i dadau*
*Awst* 12, 1810. *yn 75en mlwydd oed.*
*Ac a gladdwyd yn lle beddrod Manarwen,*
*yn Sir Benfro.*

---

"Oni wyddoch chwi i Dywysog, ag i wr mawr syrthio heddyw yn Israel." Dafydd.

---

Carnavon Argraphwyd gan M. Roberts.

# MARWNAD.

1 FY holl gyfeillion mwyn caredig,
'Rwy'n cymell 'chwi 'ng arnoch chwi,
I roddi'n dirion glust wrandawiad,
I lais Marwnad gyda mi;
Clywais gwynion trwm adroddion,
Bair dduo'dwyfron lawer dydd,
I bawb o ffyddlon gywir galon,
Yn awr yn Seion heddyw sydd.
2 Y Seren fawr ddisglairwen honno,
Sydd wedi 'mguddio mhell o'm gwydd;
Machludo wnaeth fel haul dan gaera'
Yn mhen ei gyrfa rhedfa rhwydd;
Sef ROBERT ROBERTS wrth ei enw
Bydd cof am hwnnw amser hîr,
A gadd ei symmud i ddedwyddfyd
O dymor gofid dyma'r gwir.
3 Henffych well Bererin ffyddlon,
A ga'dd ei ddanfon gan ei Dduw,
I gasglu 'nghyd wrthddrychau cariad,
Yr Iesu Geidwad oeswr gwiw,
Gweithio wnaeth ei ddiwrnod allan,
Trwy boen a gruddfan dan y groes,
Ac yna nofiodd mewn tangnefedd
I wlad y wledd ddi ddiwedd oes.
4 Pymtheng mlynedd lawn o'u henwi
Y bu'n cyhoeddi Efengyl hedd,
O ynys Fon hyd amryw bellder,
Cymru a Lloeger wiwber wedd
O fan i fan ac tan bob tywydd,
I daenu beunydd dan ei boen,
Y son am gymmod sy' am gamwedd,
I gyd o rinwedd gwaed yr Oen.
5 Pa mo'r glir mo'r bur a thanllyd,
Do'i gair y bywyd gwir o'i ben,

Effeithiau dwyfol oedd ganlynol,
I'w rasau nefol ïs y nen:
Fel cwmwl gwlithog grasol gwresog
Anwyl bywiog i ni bu,
Neu seren fawrwych siriol foreu
Yn ennyn goleu annian gu.
6 Rhyw golled fawr i fyd ac eglwys
Fod dan y gwys fath ddyn ac ef,
Un mor ddefnyddiol fuddiol foddau,
I ddwyn eneidiau at Dduw nef:
Ei alluogi wnae'r Dwyfol allu,
I iawn gyfrannu'n rhwydd bob rhan,
O'r bara bywiol, a'r llaeth ysprydol
Er lles trag'wyddol i'r rhai gwan.
7 Llafurus oedd er cynneu canwyll,
Mewn cilain dywyll calon dyn,
Er tynnu a thaflu gwaith y diaflaid
Yn llwyr o'r enaid bob yr un;
Er cael o'r meirwon hollawl ddeillion
Ddedwydd foddion dd'od yn fyw,
Trwy Borth yr holl ail-anedigîon,
I wisgo'n dirion ddelw Duw.
8 Piler hardd yngardd yr Arglwydd,
I gario dedwydd faner Dnw:
A cholofn wiwdeg gref a chadarn,
Mewn cywir farn tra cafodd fyw;
Call wiliedydd ac adeiladydd,
A doeth sylfaenydd oedd efe,
Crist ei hunan oll yn gyfan,
Oedd ei graig a'i sylfa'n gre'.
9 Yn erbyn caerau annuwioldeb,
Mewn taerineb taro'r oedd,
Fe'i hamgylchynai hwyr a borau,
Gyd ag arfau Duw ar g'oedd.
Gan weiddi'n wrol "Bobol Bobol
O'r hen ddistrywiol ddinas trowch,
Yn mhell o gyraedd fflamllyd genllysg,
Tân anniddig ffyrnig ffowch."

10 Ond ydyw 'n brudd in' fod y cyfryw.
  Yn duo'i liw mewn daear len;
Llafurus uch mor wych ei 'wllys,
  I ddwyn ei barchus gwys i ben;
Yn awr yn gorwedd yn y gweryd,
  Heb allu symmud dim yn siwr;
Hyd ddydd y farn o'r gadarn geuffos,
  Er cynnal achos canol wr.
11 Pe teithiem at ei feddrod heddyw,
  I adrodd gloyw brofiad glân;
Ni roddai RHOBERT un attebiad,
  Ini mwy na'r Pryfed man,
Mae'r fath wybodaeth wedi peidio,
  'Does gair i neb gael ganddo 'n awr;
Nid oes llafurus swn llaferydd
  O dan dorlenydd daear lawr.
12 Ffarwel iddo, ffarwel iddo,
  Ni chawn ni glywed mo'no mwy,
Yn adrodd gair am werthfawroccaf,
  Rinwedd glanaf marwol glwy:
Gorphwys mae fe'n mynwent Clynog.
  Oddiwrth ei wir ardderchog waith;
Agwedd gweddaidd fel y gwyddis
  Wedi hir flinderus daith.
13 Mae aml galon drom hiraethlon,
  Yn Arfon dirion ar fin dw'r;
Mewn gwastad deimlad bruddaidd brofiad,
  O'u dirfawr golled am y gwr;
Gwraig yn colli Priod ffyddlon,
  Plant yn colli tirion Dad.
Brodyr a chwiorydd iddo,
  Yn dwysaidd gwyno nid oes gwad,
14 Ond ef adawodd fyd y drygau,
  I fyn'd i bur orphwysfa'r Saint,
Gadawai'n llwyr holl oriau tristwch,
  I fyn'd i heddwch heb un haint;
Gadawai'r groes i gael y goron,
  Gyd a'r meibion union oed,
Ac eistedd fry 'n y dirion deyrnas
  Lle mae'r urddas mwya'r ioed.

15 Cadd gefnu'n llwyr o'r fath ofidiau,
Nad oedd a'u plymiau yn y plwy'
A myn'd i'r lle mae mor o gysur,
Heb drai na mesur arno mwy:
Cael peidio bod yn nod i saethau,
A themtasiynau'r gelyn sur,
A myn'd yn nes i fynwes Iesu,
Fu gynt yn gwaedu rhwng y gwyr.
16 Gadawodd gorphun clafaidd clwyfus,
Hwn oedd flinderus nos a dydd;
Gan faint gafodydd trwm ofidiau,
Wrth draethu ffyddlon eiriau'r ffydd;
Ei enaid aeth o'i annedwyddwch,
I wlad o heddwch hoenwych hawl;
Lle mae myrddiynau o mor ddawnus
Yn eilio 'n hwylus felus fawl.
17 'Does yno neb yn ofni angau
Uffern fawr na'r farn a fydd,
Mae holl drigolion gwlad goleuni,
Oddiwrth y rhei'ny'n berffaith rydd,
Ac yn mwynhau pob gwir hyfrydwch,
Mewn diogelwch y fath gae
Na ddaw o'i fewn na chlwy' na chlefyd,
Poen na gofid byth na gwae.
18 Ein Brawd a ddywedodd cyn ymddattod;
Ei fod e'n barod hynod hwyl,
I fyned trwodd a bod gartref
Gyd ag ef i gadw gwyl;
A bod ei enaid ym mherffeithiaf
Gyfiawnder glanaf marwol glwy';
Dim ond aros am yr oriau,
I seinio mawl 'osana mwy.
19 Fe wnaed cynhebrwng addas iddo,
Bydd cof am dano lawer dydd,
Credu rwyf fod nef yn gwenu
Wrth gael ein Brawd i'r gwelu o bridd,
Arwyddion grasol fod y dwyfol
Seceina nefol efo ni;
Wrth geisio galw ar sanctaidd enw,
Y Gwr fu farw ar Galfari.

20 Arglwydd grasol Tad goleuni,
Llawn tosturi ydwyt ti;
Yn ol helaethrwydd mawr dy gyfoeth,
Gwel mae noeth a thlawd y'm ni,
Dos i'r goedwig fawr neu'r winllan,
Oddiyno 'rwan cais ryw un,
I ni yn lle ein Brawd sy'n farwol,
A fo'n fendithiol i bob dyn.

21 A gwna i'r plant ymddifaid ddyfod
I wir adnabod Duw eu Tad:
Boed hefyd wiw gen'ti eu codi,
I hau goleuni yn ein gwlad,
Ychydyig flawd ac olew'r weddw,
A ddalio'n loyw i ddod i lawr,
I'w chadw hi a'i phlant rhag eisiau,
Nes delo 'r mwyn gynhauaf mawr.

22 Duw gwna ni'n addas ddilynyddion
I'r cwmmwl tystion nos a dydd;
Gan gadw'n golwg ar ein Meichiau,
Heddyw'n llon'd ei swyddau sydd,
Ac yn dy law fod o ryw ddefnydd
I bawb yn ufudd is y nen,
Er amlhau y rhai a roddant,
Y clod a'r moliant iti Amen.

H. PRICHARD, Nubwrch.

# MARWNAD.

1 HENFFYCH well pob ffarwel bellach,
A roddir mwyach yn mhob man,
I'r doeth barchedig burwych awdwr;
JONES ddi gynnwr o Langan:
Hardd y treuliodd ef ei ddyddiau
O fewn cynteddau ty ein Tad,
A hardd y hunodd mewn tangnefedd,
I nefol wledd anwylaf wlad.

2 Gwas oedd ef ar ddeg talentau,
A Mab a aned yn y tŷ,
Cangen o'r winwydden orau,
Ai gwreiddiau yn y nefoedd fry,
Pren a blannwyd ar lan afon.
Arail beraidd ddyfroedd byw,
Hardd a duwiol gwyrdd flodeuog,
Gwas ardderchog dros ei Dduw.
3 Gwr addaswyd gan Iesu,
I iawn gyfrannu'r gair ar goedd,
Yn llawn ddwys gadarn llon dysgeidiaeth,
Mewn difeinyddiaeth helaeth oedd;
Trwy iach athrawiaeth wych a threiddiol,
Sylweddol grasol ae'n ddi gryn;
A Duw yn arddel doniau eurddoeth,
Wrth son am gyfoeth Iesu gwyn.
4 Fel allwedd aur y gair agorai,
A'r wawr a dorai 'n oleu dydd,
Gan nerth gwiw fythol nef effeithiau,
Eneidiau rhwym a neidiau'n rhydd:
Wrth lais y bibell arian bybyr,
Minteoedd prysur ddoent o'r bron,
I lawn gu eirwir lan garwriaeth,
O'r iachawdwriaeth helaeth hon.
5 Bydd chwith i'r byd a chwith i'r eglwys,
Am ddyn mor gymmwys mae'n ddi gel,
I iawn gyfrannu 'r gair gwirionedd,
Dan bwyll a sylwedd diball zel,
Hir y cofir am a gafwyd
Ac a ddanfonwyd trwyddo fe',
Ond hwy y molir Iesu Isr'el,
Am ei oruchel arddel e',
6 Lloegr faith a Chymru hefyd,
Trwy gyfiawn ryddid gafodd ran,
O weinidogaeth helaeth alwed,
Yr anwyl Gennad JONES o 'Gan;
Ef oedd bregethwr i bregethwyr,
'E ddoe cynghorwyr atto 'nghyd,
I gael rhyw addysg hyddysg haeddawl,
Am bethau'r nefawl fythawl fyd.

7 Ond mado wnaeth pan ddaeth yr alwed
   I fythol nodded faith y nef;
Gorphwysfa dawel lonydd ddiddig,
   Buredig anllygredig gref,
A barottowd mewn bwriad tirion,
   I'r gwaredigion wiwlon wedd
A brynnodd Iesu breiniol oeswr,
   Cyfryngwr haeddwr rhoddwr hedd.
8 Ffarwel iddo ni wiw cwyno,
   Na dwl lunio can dylawd,
Na chadw galar hir nag wylo,
   Wedi 'briddo mae ein brawd,
Melys iawn i'w hun y gweithiwr
   O fewn i'r pentwr ennyd bach;
A melus hynod wedi huno.
   Mewn dyffryn oer, fydd deffro 'n iach.
9 Gwynfyd y cyfryw rai nas cyfrif
   Duw mo'i haml feiau hwy,
Ac a guddir yn nghyfiawnder
   Dwyfol glanaf marwol glwy'
Rhai 'n eu bywyd a sancteiddiwyd
   Ac a gannwyd yn y gwaed;
A chorph marwolaeth wedi 'faeddu,
   A phob trueni tan eu traed.
10 Does i ni weithian ddim i wneuthur
   A neb o'n brodyr aeth i bridd
Ond parchu'n ffyddlon y rhai bywion
   Ar furiau Seion heddyw sydd;
Gwrando arnyn', gweddio drostyn',
   Yn daer a'i dilyn yn mhob da,
A derbyn ganddynt air y cymmod,
   Mwynwych hynod a'n iacha.

Hwn yn Nuw huno a wneath,—a dedwydd,
Ydyw ... rwolaeth,
I ... wyd 'fe aeth,
A hardd y ... ion iechydwriaeth. H. P-
I nefol wl...

SALISBURY LIBRARY ... WALES & MON